
IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 21.07.16

Yn bresennol: **Cynghorwyr :** Eryl Jones-Williams (Cadeirydd), Annwen Daniels a Louise Hughes
Swyddogion: Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. CAIS AM AMRYWIAD I DRWYDDED EIDDO – THE FIRECAT COUNTRY HOUSE B&B, CAMLAN UCHAF, MALLWYD

Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

Ar ran yr eiddo: Mr Robin Worgan (ymgeisydd) ac Amber Worgan

Aelod Lleol: Cynghorydd John Pughe Roberts

Eraill a fynychwyd: Arfon Hughes (Cyngor Cymuned Mawddwy), Euron Thomas (Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd – Cyngor Gwynedd)

- a) Nododd y Cadeirydd bod yr Is Bwyllgor, yn dymuno gohirio'r cyfarfod er mwyn trefnu ymweliad safle i aelodau'r Is Bwyllgor ystyried yn llawn y pryderon a fynegwyd gan wrthwynebwyr i'r cais ar sail mynediad i'r safle.
- b) Amlygodd y Cyfreithiwr bod Diogelwch y Cyhoedd yn un o egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003. Nododd mai synhwyrol fuasai cynnal ymweliad safle gan mai un o brif gyfrifoldebau yr Is Bwyllgor yw ystyried diogelwch y cyhoedd

PENDERFYNWYD cynnal ymweliad safle ac ail drefnu gwrandawriad

Dechreuodd y cyfarfod am 1:15am a daeth i ben am 1:30pm